8 Cam i Newid y Byd
Cefndir: Nodau Datblygu'r Mileniwm

Beth yw Nodau Datblygu'r Mileniwm?

Mae'r wyth o Nodau Datblygu'r Mileniwm (NDM) yn dargedau rhyngwladol ar gyfer lleihau tlodi byd-eang. Y nod yw codi tua 500 miliwn o bobl allan o dlodi erbyn 2015. Os fydd hyn yn digwydd, bydd llai o fenywod yn marw wrth eni plant, bydd llai o bobl yn marw o afiechydon y mae modd eu trin, bydd llawer mwy o fechgyn a merched yn mynychu'r ysgol, a bydd bywydau miliynau o bobl yn gwella'n ddramatig.

Sut daethant i fod?

Yn y flwyddyn 2000, penderfynodd aelod wladwriaethau Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn unfrydol i fabwysiadu Datganiad y Mileniwm. Yn y ddogfen hon mae'r NDM, set o dargedau realistig y mae modd eu cyflawni. Drwy ymrwymo i'r nodau hyn, mae llywodraethau'r byd wedi ymrwymo i gydweithio tuag at well dyfodol i ni i gyd.

Beth sy'n digwydd nawr?

Bydd y cynnydd tuag at y nodau yn cael ei fesur bob blwyddyn, er mwyn cynorthwyo i'w cyflawni i gyd erbyn 2015. Ar gyfer y saith nod cyntaf, mae'r pwysau ar lywodraethau gwledydd sy'n datblygu i sicrhau fod y targedau yn cael eu cyflawni neu guro. Yr wythfed nod, fodd bynnag, i 'adeiladu partneriaeth ddatblygu fyd-eang' fydd yn creu'r amodau angenrheidiol i gyflawni'r saith arall. Gyda'r nod hwn, mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar wledydd cyfoethocach a'r 'gymuned fyd-eang' ehangach i ostwng dyledion, rhoi mwy a gwell cymorth, a sicrhau masnach decach, ymysg mesurau eraill. Fodd bynnag, wrth edrych ar y raddfa gyfredol o gynnydd, bydd nifer o'r targedau yn cael eu methu, ac felly mae'n hanfodol rhoi mwy o bwysau ar gymuned y byd i gynyddu'r ymdrechion i'w cyflawni.

Mae'r cynnydd tuag at y nodau dan fygythiad bellach gan dwf economaidd araf – negyddol hyd yn oed - llai o adnoddau, llai o gyfleoedd masnachu i'r gwledydd sy'n datblygu, a gostyngiad posibl yn llif y cymorthdaliadau oddi wrth y gwledydd sy'n cyfrannu. Ar yr un pryd, mae effeithiau newid hinsawdd yn gynyddol amlwg, gydag effaith andwyol posibl ar wledydd cyfoethog a thlawd. Heddiw, yn fwy nag erioed, rhaid i'r ymrwymiad i adeiladu partneriaeth fyd-eang, sydd yn greiddiol i'r Datganiad Mileniwm, arwain ein gweithredoedd.

Ym Mehefin 2010 bydd aelodau'r G8 yn cyfarfod yng Nghanada ac yn trafod y cynnydd ar Nodau Datblygu'r Mileniwm. Mae'r CU hefyd wedi trefnu Uwchgynhadledd NDM arbennig ar gyfer mis Medi 2010. Yn Adroddiad Nodau Datblygu'r Mileniwm 2009 a ryddhawyd yn gynharach, nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Ban Ki-moon: "Rydym wedi symud ymlaen yn yr ymdrech hon, ac mae gennym nifer o lwyddiannau i adeiladu arnynt. Ond rydym wedi symud yn rhy araf i gyflawni ein nodau". Gobeithia y bydd y cyfarfod lefel uchel yn 2010 nid yn unig yn arwain at adnewyddu ymrwymiadau cyfredol, ond hefyd yn cadarnhau cydweithrediad ymysg yr holl fudd-ddeiliaid, a sicrhau'r cyllid angenrheidiol i sicrhau cyflawni'r Nodau erbyn 2015.

Mae Newid Hinsawdd yn ffactor sylweddol wrth gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm. Ni fydd modd i wledydd tlawd ddileu newyn a thlodi os ydynt yn parhau i gael eu heffeithio'n negyddol gan sychder neu lifogydd. Gall cyllid llywodraethau ar gyfer addysg gael ei ddargyfeirio ar gyfer lleddfu trychinebau. Bydd merched yn colli eu haddysg os oes rhaid iddynt gerdded am filltiroedd i ddod o hyd i ddŵr neu fwyd i'w teuluoedd. Byddai'n anodd gwella iechyd plant ac iechyd mamau os yw'r ardal gyfan yn cael ei heffeithio'n negyddol gan newid hinsawdd. Mae llifogydd a sychder yn arwain at ledaenu afiechydon megis malaria. Pobl dlawd sydd fel rheol yn dioddef fwyaf o effeithiau newid hinsawdd, er mai gwledydd cyfoethog sy'n cynhyrchu'r mwyafswm o garbon y pen, un o'r prif achosion. Nes bydd pob gwlad yn ymrwymo i ostwng allyriadau carbon a gwledydd cyfoethog yn darparu arian i helpu gwledydd tlawd i addasu i effeithiau newid hinsawdd, bydd yn anodd iawn cyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm.

> *Llawn mor bwysig yw sicrhau fod buddiannau gwledydd sy'n datblygu, yn arbennig y rhai tlotaf, yn parhau i fod yn ganolog mewn trafodaethau ar fasnach. Rhaid i ni hefyd daro bargen ar drefn newid hinsawdd newydd yng Nghopenhagen fis Rhagfyr. Mae'n hen bryd gwneud newidiadau strwythurol angenrheidiol i symud ymlaen tuag at ddatblygiad a chynaladwyedd tecach, a wynebu'r argyfwng hinsawdd.*
>
> Ban Ki-moon
> *Ysgrifennydd Cyffredinol, y Cenhedloedd Unedig, cyflwyniad Adroddiad NDM 2009*

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i'n hysbysu am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:

Oedran disgyblion:

Disgrifiad o'r addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon oddi wrthym am ein prosiectau a gweithgareddau. Gallwch dynnu eich enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg.
Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, os fyddai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.